

Presennol/Present: Cyng./Cllr. E. Lewis (Cadeirydd);
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies,
Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan;
Cyng./Cllr. A. Richards.
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

- | | |
|--|---|
| <p>125. Materion Personol</p> <p>126. Datgelu Buddiannau Personol
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.</p> <p>127. Asesiad Risg ac Asedau
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.</p> <p>128. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf
Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion canlynol gan gynnig ac eilio gan:
2 Rhagfyr, 2024: Cyng. C. Lloyd-Morgan, Cyng. M. Davies</p> <p>129. Materion yn Codi o'r Cofnodion
Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt.</p> <p>130. Cynrychiolaeth o Bwyllgor Cymdeithas Cae Chwarae Maes y Felin
Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion yn dilyn ymholiad cychwynnol ynghylch terfynu'r brydles, gan nodi y byddai modd terfynu'r brydles ond byddai costau ynghlwm ar draul y Cyngor Cymuned ac y byddai angen clirio'r holl adeiladau a gosodiadau ar y safle.
Aros i glywed ymhellach gan Bwyllgor Cymdeithas Maes y Felin.</p> <p>131. Tir lithriad ger ochr yr Afon Ystwyth tu cefn i Abermagwr.</p> | <p>Personal Matters</p> <p>Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an interest when discussing items.</p> <p>Risk and Asset Assessment
There were no matters arising regarding Assets.</p> <p>Minutes of the Last Meeting
The following minutes were confirmed and accepted, proposed and seconded by:
2nd December, 2024: Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cllr. M. Davies.</p> <p>Matters Arising from the Minutes
A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon.</p> <p>Representation from the Committee of Maes y Felin Playing Field Association
A response received from Ceredigion County Council following initial enquiry regarding terminating the lease, noting that it would be possible to terminate the lease but there would be costs involved at the expense of the Community Council and that there would be a need to clear all chalets and fixtures on site.
Await to hear further from the Committee of Maes y Felin Playing Field Association.</p> <p>Landslide near the side of the River Ystwyth behind Abermagwr.</p> |
|--|---|

132.	Y materion canlynol wedi cyfeirio at y Cyngor Sir.	The following have been referred to the County Council.
133.	Tyllau ar y ffordd heibio i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.	Pot holes on the road near Llanfihangel-y-Creuddyn School.
134.	Cwlfert/ Drain ddŵr agored wrth ben lôn Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn, parhau angen sylw gyda'r twll mawr yn y lleoliad yn beryglus.	Culvert/Open drain by Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn still needing attention, the large hole at the location is dangerous.
135.	Tyfiant o'r gwrychoedd angen torri ar ffordd uchaf yn Llanafan a'r ffordd rhwng y gyffordd Cnwch Coch ac Abermagwr.	Growth from the hedgerows need cutting on Ffordd Uchaf Llanafan, as well as left hand side between the junction to Cnwch Coch and Abermagwr.
136.	Bont Sigl, Llanafan: y Cyngor Sir wedi cau'r bont dros dro oherwydd diogelwch. Cysyllter gyda'r Cyngor Sir i ymholi pa mor hir fydd ar gau.	Bont Sigl, Llanafan: County Council has closed the bridge due to safety. Contact to be made with the County Council to enquire how long it will be closed.
137.	Draeniau dwr wedi gorlenwi ar y ffordd rhwng Llanafan a'r B4340 sy'n achosi llifogydd i eiddo ar y B4340.	Blocked water drains on the road between Llanafan and the B4340 causing flooding to a property on the B4340.
138.	Golau Fflachio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn fflachio ar wahanol adegau o'r dydd a'r nos ac nid fel y dylid gwneud ar adeg dechrau a cau yr ysgolion.	Flashing Lights outside Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn flashes at different times of the day and night and not as arranged at beginning and end of school day.
139.	Cyflwr y ffordd o Lanafan i'r B4340 angen sylw, draeniau wedi gorlenwi a tyllau yn yr arwynebedd.	Road condition from Llanafan to the B4340 needs attention, overfilled drains and potholes.
140.	Materion Cyllidol	Finance
141.	Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol i'r Cynghorwyr sy'n nodi fod £4,847.32 o gyllid ar gael yn y cyfrifon banc ar 31/12/2024 gydag amcangyfrif oddeutu £3,300 yn weddill erbyn diwedd Mawrth 2025 drwy gymharu costau y flwyddyn cynt.	The Clerk presented the Councillors with a financial balance sheet which states that there was £4,847.32 available funds in the bank accounts as 31/12/2024 with an estimated £3,300 remaining balance by the end of March 2025 by comparing previous year's costs.
	Cyflwynwyd hefyd daflen gyllideb ar gyfer 2025/26 a oedd yn cymharu gwariant dros y blynyddoedd blaenorol. Cynhaliwyd trafodaeth adeiladol ar y gwariant arfaethedig.	A budget sheet for 2025/26 was also presented which compared expenditure over previous years. A constructive discussion was held on the proposed expenditure.
	Rhagwelir bydd yr swm yr yswiriant yn codi a chostau cyflog yr awr y Clerc yn codi yn flynyddol. Costau Rhoddion i barhau yr un peth.	It is anticipated that the insurance amount will rise as well as the Clerk's hourly wage costs. The donation costs to remain the same.

Trafodwyd hefyd posibilrwydd o gostau ychwanegol yn cwmpo ar y Cyngor Bro gyda darpariaeth dyfodol Maes Chwarae Maes y Felin, naill a'i cyfraniad rhodd blyneddol ychwanegol (yswiriant presennol y Gymdeithas Maes y Felin yn £800 gyda'r Cyngor Cymuned yn rhoi rhodd o £500 tuag at y gost) neu pe byddai'r cyfrifoldeb y maes chwarae'n cwmpo nol ar y Cyngor Bro (gweler cofnod 130 uchod). Cytunwyd i dderbyn cyllideb 2025/26 fel sail i benderfynu ar y praesept 2025/26.

The possibility of additional costs falling on the Community Council was also discussed with the future provision of Maes y Felin Playing field in jepordy, either with its additional annual donation contribution (current Insurance of Maes y Felin Association is £800 with the Community Council donating £500 towards the cost) or if the responsibility of the facility were to come back on the Community Council (see minute 130 above). It was agreed to accept the 2025/26 budget as the basis for deciding on the 2025/26 precept.

142. **Praesept am 2025/26**

Yn dilyn yr eitem blaenorol gan ystyried posibilrwydd o gostau ychwanegol yn cwmpo ar y Cyngor Bro a'r arian wrth gefn yn lleihau cytunwyd yn unfrydol i godi swm i praesept 2025/26 i £5,600 (ychwanegiad o £400). Cynhigiwyd gan Cllr. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

Praesept on 2025/26

Following on from the previous item, taking into account the possibility of additional costs falling on the Community Council and the reduction of reserves, it was unanimously agreed to increase the amount of the 2025/26 precept to £5,600 (an addition of £400). Proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. Sh. Edwards.

143. **Rhannu Gwybodaeth**

144 Nifer o dyllai yn y ffordd rhwng Llanafan a Brynafan yn agos i fynedfa'r goedwig a culvert dwr angen sylw.

Sharing of Information

A number of pot holes between Llanafan and Brynafan close to the forestry entrance and a water culvert needing attention.

145. Draeniau dwr yng nghanol pentref Cnwch Coch angen glanhau a gwagio sy'n achosi llifogydd yn y pentref.

Water drains in the centre of Cnwch Coch village need cleaning and emptying causing flooding in the village.

146. Gofynnir i Gyngor Sir Ceredigion i'r glanhawr ffordd i lanhau'r ffordd sy'n mynd i gyfeiriad Capel Carmel yn Cnwch Coch pan yn ymweld â'r pentref. Ar sawl achlysur bellach nid yw wedi bod yn glanhau'r darn yna o'r ffordd na'r draeniau dwr yn cael eu glanhau, fel y gwneir mewn mannau eraill o'r Pentref.

A request be made to Ceredigion County Council for the road sweeper to sweep the road heading towards Carmel Chapel in Cnwch Coch. On many occasions now the sweeper has not been cleaning that stretch of road or clearing the water drains, as is done in other parts of the Village.

147. Twll yn y ffordd ger y cysgodfa bws yn Cnwch Coch sy'n ymddangos yn aml er y llenwir yn rheolaidd.

A pothole near the bus shelter in Cnwch Coch that appears frequently despite being filled regularly.

148. Sefyllfa o ddŵr yn cronnu rhwng Y Gors a Penffordd yn achosi problemau eto er i Gyngor Sir Ceredigion drefnu gwneud gwaith o rododi drain ddŵr newydd ar y safle rai misoedd yn ôl.

Rain water is causing flooding between New Cross and Penffordd despite Ceredigion County Council organising drainage work on the site several months ago.

A number of potholes along this road have also appeared on this section of road.

Nifer o dyllau ar hyd y ffordd yma hefyd wedi ymddangos.

149. Cyflwr y ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn ofnadwy.

The condition of the road going past Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn is deteriorating.

150. Dwr glaw yn llifo o'r caeau ac achosi dwr i gronni a'r ffordd i dorri heibio i Bryngibdda.

Rain water from the fields causing flooding and eroding of the road past Bryngibdda.

151. Y ffordd yn rhoi ger y bin halen rhwng Rhiw Hari a Cnwch Coch.

The roadside eroding near the salt bin between Rhiw Hari and Cnwch Coch.

152. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 17eg Chwefror 2025 am 7.30y.h.
yn Neuadd Lisburne Llanafan.

DATE OF NEXT MEETING
Monday 17th February, 2025 at 7.30p.m.
at Lisburne Hall, Llanafan.